Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 25.02.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

## HYFFORDDIANT: Cwrs hyfforddi Twristiaeth i Bawb (TFA) – gwella hygyrchedd

Mae Twristiaeth i Bawb (TFA) yn cynnig cwrs byr newydd di-dâl sy'n dangos sut y gall cymryd y camau cyntaf i wella darpariaeth ar gyfer cwsmeriaid ag anghenion mynediad fod yn haws na'r disgwyl. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://site.tourismforall.org.uk/staff-training/free-courses

## YMGYRCH: Wythnos Gweithredu ar Wastraff Bwyd 2022

Cynhelir Wythnos Gweithredu ar Wastraff Bwyd rhwng 7 a 13 Mawrth 2022, fydd yn codi ymwybyddiaeth o ganlyniadau gwastraffu bwyd, a hyrwyddo gweithgareddau sy'n helpu i leihau faint o fwyd sy'n cael ei wastraffu. Gofynnir i'r diwydiant Lletygarwch a Gwasanaethau Bwyd ymuno â'r ymgyrch ledled y DU yma. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/WythnosGwastraffBwyd2022FoodWasteWeek

## YMGYNGHORIAD: Adolygu cymwysterau teithio, twristiaeth, lletygarwch ac arlwyo

Mae Cymwysterau Cymru yn cynnal adolygiad sector o gymwysterau a'r system gymwysterau yn y sector Teithio, Twristiaeth, Lletygarwch ac Arlwyo. Ceisir barn cyflogwyr, dysgwyr, darparwyr dysgu a chyrff sector. I gymryd rhan, cysylltwch â:

travelandtourism@qualficationswales.org

## DIGIDOL: Cyflymu Cymru i Fusnesau – Gweminarau am ddim

Mae gan Cyflymu Cymru i Fusnesau ystod o weminarau rhad ac am ddim yn yr wythnosau nesaf sy'n rhoi cyngor ymarferol i chi i helpu hyrwyddo'ch busnes a chystadlu ar-lein. Am fwy o wybodaeth, ac i archebu lle, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy/digwyddiadau

## AMGYLCHEDD: Y daith i sero net i BBaChau

Mae'r Ymddiriedolaeth Garbon wedi llunio canllawiau sy'n cynnig llwybr i fusnesau bach a chanolig (BBaChau) i sero net. Mae'n cyflwyno'r opsiynau syml sydd ar gael i BBaChau sy'n dechrau ar eu taith sero net ac yn tynnu sylw at yr heriau yn yr hirdymor. Am fwy o wybodaeth ewch i:

https://www.carbontrust.com/resources/the-journey-to-net-zero-for-smes

## LLES: CULT Cymru – Gweithdai Iechyd Meddwl a Llesiant

Mae CULT Cymru (Creative Unions Learning Together) yn gweithio i gefnogi miloedd o weithwyr creadigol i gyrraedd eu potensial drwy gynnig cyfleoedd dysgu sy'n berthnasol, yn hygyrch ac yn fforddiadwy. Mae ganddynt nifer o gyrsiau addysgiadol, gan gynnwys gweithdai iechyd meddwl a llesiant. I ddarganfod mwy, ewch i:

https://cult.cymru/cy/hyfforddi-digwyddiadau-training-events/

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru